# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaeth Gofal Cartref Cymunedol Cwm Taf Morgannwg**

**Gwasanaeth Gofal Cartref Cwm Taf Morgannwg**
**Tŷ Heulog**
**Ffordd Y Bont-faen**
**Pont-y-clun**
**CF72 8FH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwasanaeth Gofal Cartref Cymunedol Cwm Taf Morgannwg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Mehefin 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Gwasanaeth Gofal Cartref Cymunedol Cwm Taf Morgannwg yn wasanaeth cymorth cartref sy'n darparu gofal a chymorth personol i bobl yn eu cartrefi eu hunain yn ardal Rhanbarth Cwm Taf. Mae'r swyddfa gofrestredig yn Rhondda Cynon Taf ac mae swyddfa fach ym Mhen-y-Bont ar Ogwr, gyda'r gwasanaethau Gofal Cartref Cymunedol traddodiadol yn gweithredu allan o'r ddwy. Hefyd, ceir dau gynllun Gofal Ychwanefol yn y gwasanaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Merthyr, gyda gwasanaethau  Gofal Cartref Cymunedol ychwanegol yn gweithio allan o'r cynllun ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae gan y bobl sy'n derbyn cymorth gynlluniau sy'n nodi manylion eu hanghenion gofal unigol a'u canlyniadau personol. Caiff y rhain eu hadolygu'n gyson, sy'n welliant ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn canmol y cydberthynasau cadarnhaol sydd ganddynt â'r staff gofal a staff y swyddfa. Teimla'r staff gofal fel eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau, ac maent yn hyderus ac yn hapus. Darperir goruchwyliaeth un i un reolaidd, monitro, a hyfforddiant i'r holl staff ar draws y cynlluniau, sy'n welliant ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â gwahanol rannau o'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau rheoleiddio.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gwneud dewisiadau am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae'r staff yn datblygu cynlluniau gyda'r unigolyn a'i gynrychiolydd, gan ddefnyddio adnoddau asesu da. Mae'r bobl yn rhoi adborth wyneb yn wyneb, drwy fonitro dros y ffôn, neu drwy arolygon boddhad gwasanaeth blynyddol, sy'n cyfrannu at y gwaith o sicrhau ansawdd y gwasanaeth. Mae gan y gwasanaeth Dîm Archwilio mewnol, ac mae'r rheolwr yn goruchwylio'r archwiliadau a gynhelir gan arweinwyr tîm yn y cynlluniau unigol i sicrhau bod y bobl yn derbyn gwasanaeth sy'n gyson ac o ansawdd da. Caiff anghenion y bobl o ran iaith a chyfathrebu eu hystyried. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag y cynnig iaith Gymraeg, gyda gwybodaeth megis y datganiad o ddiben a'r canllawiau ysgrifenedig i'w chael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r staff yn dogfennu anghenion y bobl a'r risgiau i'w diogelwch a'u llesiant, mewn asesiadau risg personol. Mae'r gwasanaeth yn ymatebol i newidiadau mewn anghenion gofal a chanlyniadau personol pobl, gydag arolygon cyson yn cael eu cynnal ar draws gwahanol rannau o'r gwasanaeth.  Mae hyn wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Defnyddir system monitro gofal electronig, sy'n galluogi'r staff gofal i logio galwadau i mewn ac allan, a chyfleu unrhyw ymholiadau neu broblemau gyda staff y swyddfa a'r tîm rheoli. Mae'r system yn galluogi staff y swyddfa i rannu unrhyw newidiadau i rotas neu dasgau gofal â'r gweithwyr gofal yn brydlon.

Mae'r staff yn helpu i ddiogelu'r bobl rhag achosion posibl o niwed neu gamdriniaeth. Maent yn derbyn hyfforddiant diogelu ac maent yn arddangos dealltwriaeth gadarn o'r weithdrefn i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae polisïau Diogelu a Chwythu'r Chwiban ar waith, ac maent yn cael eu hadolygu'n gyson.

Gall y bobl gael cymorth gyda'u meddyginiaeth os oes angen. Mae polisïau a gweithdrefnau meddyginiaeth ar waith. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant, gwiriadau yn y fan a'r lle, ac asesiadau cymhwysedd i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni'r dasg hon yn ddiogel ac yn briodol.

Gan mai gwasanaeth cymorth cartref yw hwn, nid ydym yn ystyried thema'r amgylchedd, ond roedd y swyddfa a'r safleoedd eraill yn ymddangos yn ddiogel ac yn 'addas at y diben' yn ystod ein hymweliadau safle.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl a'u teuluoedd gydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Dywedodd y bobl wrthym fod y cyfathrebu'n dda ar y cyfan. Gwelsom gopi o ganllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth a roddir i'r bobl a datganiad o ddiben, sy'n gyson â'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r cyfathrebu rhwng y tîm rheoli a'r staff gofal yn dda. Defnyddir ap monitro gofal i logio i mewn ac allan o alwadau, i gael gafael ar gynlluniau gofal, rotas a nodiadau dyddiol. Mae'r adborth gan y bobl a'u teuluoedd yn gadarnhaol. Dywedodd un person am y staff gofal '*some of them make me laugh so much, I feel so much better after they have left'.* Dywedodd un arall *'the carers are like angels…they've been fantastic…more like friends'.* Dywedodd perthynas *'they are very good…my mum has a good relationship with them…they are flexible when needed'.*

Mae'r cynlluniau gofal yn ystyried canlyniadau personol y bobl, yn ogystal â'r gofal a'r cymorth ymarferol sydd eu hangen arnynt. Gwelsom dystiolaeth y caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd o fewn cynlluniau ar draws y gwasanaeth erbyn hyn, ac yn cynnwys pobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill, megis gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol. Mae hyn wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf.

Mae mesurau ar waith i helpu'r bobl â'u meddyginiaeth os bydd angen. Mae polisi a gweithdrefnau meddyginiaeth ar waith sy'n rhoi arweiniad clir i'r staff. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant meddyginiaeth, ac mae'r goruchwylwyr yn gwirio cymhwysedd y gweithwyr gofal yn cefnogi pobl gyda meddyginiaeth drwy gynnal hapwiriadau ac asesiadau o gymhwysedd. Mae cofnodi ar siartiau MAR wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Caiff unrhyw faterion sy'n weddill eu hamlygu mewn Archwiliadau a'u cyfeirio atynt gyda staff yn briodol.

Mae'r gwasanaeth yn anelu at amddiffyn y bobl rhag achosion posibl o niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar waith i'w hysbysu sut i roi gwybod am achosion o gam-drin. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym y gallent fynd at y rheolwr gydag unrhyw faterion.

Mae mesurau rheoli heintiau ar waith. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant yn y maes hwn ac mae polisi a gweithdrefnau clir ar waith. Yn ystod ein hymweliad â'r swyddfa, gwelsom fod cyflenwadau da o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) fel masgiau, menig, ffedogau a hylif diheintio dwylo. Dywedodd y bobl sy'n derbyn gofal a chymorth wrthym fod y staff yn dal i ddefnyddio PPE pan yn angenrheidiol, yn eu cartrefi.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r staff yn wybodus yn eu rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Dywedasant wrthym eu bod yn cael amser i feithrin y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen arnynt cyn ymweld â phobl ar eu pen eu hunain. Mae proses sefydlu drylwyr ar waith, sy'n cynnwys hyfforddiant a chyfleoedd i gysgodi gweithwyr profiadol eraill. Caiff staff sesiynau goruchwylio rheolaidd sy'n cynnwys trafodaethau un i un â'u rheolwyr llinell am eu llesiant a'u datblygiad proffesiynol, ‘hapwiriadau' ac asesiadau o gymhwysedd. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant, sy'n gymysgedd o e-ddysgu ar-lein a rhywfaint yn hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae goruchwyliaeth a hyfforddiant staff wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu rotas mewn da bryd drwy'r ap monitro gofal, a'u bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau'n brydlon. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hapus ac yn hyderus yn eu rolau.  Dywedodd un gweithiwr gofal *'I love my job'.* Dywedodd un arall o'r tîm rheoli *‘they are brilliant, great, spot on…really flexible with me…support the Team’.*  Mae prosesau recriwtio a fetio ar waith, ac maent yn brosesau cadarn. Mae gwiriad cyfredol gan y staff i gyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac maent wedi'u cofrestru neu yn y broses o gael eu cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (SCW). Mae recriwtio yn broses barhaus o fewn y gwasanaeth gyda sawl un newydd wedi dechrau yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae prosesau monitro ac archwilio ar waith er mwyn cynnal ansawdd y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n goruchwylio digwyddiadau o ddydd i ddydd gyda'r staff a'r bobl sy'n cael gofal yn dda. Caiff adroddiadau ar ansawdd y gofal ac adolygiadau sicrhau ansawdd eu cwblhau. Cedwir cofnod o gwynion a digwyddiadau adroddadwy, er y nodir na fu llawer ers yr arolygiad diwethaf. Mae canmoliaeth a chardiau a llythyrau diolch yn amlwg ar draws pob rhan o'r gwasanaeth. Mae polisi Cwynion ar waith ac mae'n ymddangos y caiff ei ddilyn Mae'r bobl sy'n derbyn cymorth yn rhoi adborth ar y gwasanaeth yn ystod ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol, drwy alwadau monitro, a thrwy holiaduron arolwg boddhad. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu ffonio'r swyddfa os bydd ganddynt unrhyw broblemau neu ymholiadau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw rhai staff yn derbyn goruchwyliaeth fesul tri mis, arfarniadau blynyddol na hyfforddiant cyfredol. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff pob aelod o staff sesiynau goruchwylio, arfarniadau a hyfforddiant rheolaidd. | Cyflawnwyd |
| 16 | Ni chaiff arolygon o gynlluniau personol y bobl eu cynnal o leiaf bob 3 mis yn gyson ar draws gwahanol gynlluniau yn y gwasanaeth. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff cynlluniau pawb eu harolygu o leiaf pob 3 mis. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/09/2023